

# Adolygiad Gwella Ansawdd Adendwm i'r Llawlyfr

Ebrill 2021

## Cynnwys

Cyflwyniad .....	1
Nodau ac amcanion Adolygiad Gwella Ansawdd.....	2
Adran 1: Pwyntiau cyfeirio allanol a chwmpas Adolygiad Gwella Ansawdd .....	3
Adran 2: Gwelliant fel elfen o Adolygiad Gwella Ansawdd .....	3
Adran 3: Y dull Adolygiad Gwella Ansawdd .....	3
Adran 4: Beirniadaethau a chanfyddiadau.....	6
Adran 5: Adroddiadau, cynlluniau gweithredu a champau dilyniant .....	6
Adran 6: Y tîm adolygu.....	6
Atodiad A: Cynnwys yr Adroddiad Technegol .....	7
Atodiad B: Y beirniadaethau.....	8
Atodiad C: Crynodeb o'r addasiadau i'r Adolygiad Gwella Ansawdd ar gyfer adolygiadau a fydd yn digwydd yn 2021-22.....	10

Cyhoeddir y Llawlyfr yma yn y Gymraeg a'r Saesneg.

## Cyflwyniad

1 Mae'r adendwm hwn yn berthnasol i'r Adolygiadau Gwella Ansawdd (Adolygiadau GA) sydd wedi eu hamserlennu ar gyfer blwyddyn academaidd 2021-22. Mae'n esbonio'r addasiadau sy'n cael eu gwneud i'r ffordd y mae'r Adolygiad GA yn cael ei gweithredu yn ystod y flwyddyn academaidd hon, a dylid ei ddarllen ochr yn ochr ag argraffiad 2020 y [Llawlyfr ar gyfer Adolygiad Gwella Ansawdd](#). Yn ychwanegol at yr adendwm, bydd QAA yn cynnal sesiwn briffio i ddarparwyr i esbonio'r addasiadau hyn a thrafod sut y gellir eu gweithredu.

2 Ar 15 Chwefror 2021, cyhoeddodd Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC) newidiadau mewn ymateb i'r pandemig COVID-19 i'r gofynion i wneud adolygiadau sicrwydd ansawdd allanol yn 2021-22 ([Cylchlythyr W21/05HE](#)). Mae CCAUC wedi cytuno y dylai pob sefydliad gwblhau ei adolygiad cyfnodol o leiaf bob saith blynedd. Fodd bynnag, bydd cwmpas yr adolygiad yn cael ei ostwng i ganolbwyntio ar gyfrifoldebau statudol CCAUC i gael sicrwydd am ansawdd yr addysg a ddarperir gan, neu ar ran, darparwyr a reoleiddir. Mae hyn yn golygu na chaiff canlyniadau neu argymhellion eu cyhoeddi yn 2021-22 sy'n ymwneud â gwella ansawdd profiad dysgu'r myfyrwyr ac ansawdd y dysgu a'r addysgu.

3 Mae gwelliant mewn ansawdd yn dal i fod yn elfen allweddol o'r Fframwaith Asesu Ansawdd ar gyfer Cymru (FfAAC) a ddatblygwyd gan CCAUC. Er y bydd gwelliant yn parhau'n rhan o weithgareddau ymgysylltu rheolaidd QAA â sefydliadau sydd i gael eu hadolygu o dan Adolygiad GA yn 2021-22, ni chaiff canlyniadau neu feirniadaethau'r rhain eu cyhoeddi. Bydd QAA yn gweithio gyda'r darparwyr hyn i sicrhau eu bod yn parhau i gymryd rhan mewn gweithgareddau gwella ansawdd yng Nghymru, ac yn cyfrannu at y rhain (gwelwch baragraff 10 ac Adran 2).

4 Un o nodweddion allweddol y dull ar gyfer 2021-22 yw annog darparwyr i ganolbwyntio eu gwaith paratoi ar gyfer yr adolygiad yn effeithiol er mwyn lleihau unrhyw faich gwaith paratoi gormodol. Mae'r adendwm hwn hefyd yn amlinellu'r ffordd y bydd QAA yn cymryd camau ymateb tebyg i leihau'r baich ar ddarparwyr yn sgil yr adolygiad, nawr y mae cwmpas yr Adolygiad GA wedi ei ganolbwyntio ar sicrwydd ansawdd.

5 Er bod yr adendwm hwn yn amlinellu'r dull o ganolbwyntio Adolygiadau GA ar sicrwydd ansawdd, nid yw hyn yn rhwystro darparwyr rhag dewis cynnwys materion gwella ansawdd yn rhan o gwmpas eu hadolygiad. Os felly, dylai'r darparwr gytuno ar gwmpas ei Adolygiad GA gyda QAA yn gynnar - ar adeg cytuno ar amserlen yr adolygiad - yn ogystal â hysbysu CCAUC am ei fwriad i beidio â manteisio ar y newidiadau i'r dull. Ar gyfer y darparwyr hynny sy'n dymuno symud ymlaen yn unol â chwmpas gwreiddiol yr Adolygiad GA, caiff yr adolygiad ei gynnal yn unol â'r llawlyfr adolygiad a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2020, ac ni fydd y newidiadau a ddisgrifiwyd yn yr adendwm hwn yn berthnasol.

6 Yn yr un modd, nid yw'r addasiad i'r dull adolygu'n rhwystro darparwyr rhag dewis gofyn am gael aelodau ychwanegol ar y tîm adolygu (gwelwch baragraff 131 y Llawlyfr).

### Sut i ddefnyddio'r adendwm hwn

7 Dylid darllen yr adendwm hwn ochr yn ochr â'r Llawlyfr, sy'n disgrifio'r dull yn fanwl. Lluniwyd yr adendwm i esbonio ymhle cafwyd addasiadau i'r dull ac mae'n atodiad i weithrediad y dull adolygu. Pwrpas yr adendwm yw egluro pa feysydd yn y dull sydd wedi cael eu haddasu i gyflawni ei amcanion o ran sicrwydd ansawdd. Mae crynodeb o'r addasiadau hyn yn Atodiad 3. Ni chafwyd unrhyw wrydiadau eraill oddi wrth y dull arferol, ac eithrio'r hyn sydd wedi ei nodi yn y ddogfen hon.

## **Nodau ac amcanion Adolygiad Gwella Ansawdd**

8 Ni chafwyd unrhyw newidiadau i nodau ac amcanion cyffredinol yr Adolygiad GA o ran rhoi sicrwydd bod y darparwr yn bodloni disgwyliadau'r DU ac Ardal Addysg Uwch Ewrop (EHEA), a'i amcanion o ran sicrhau ansawdd (gwelwch baragraffau 9 a 10). Mae'r ffordd y strwythurir yr adolygiad o amgylch blaenoriaethau strategol a chyd-destun y darparwr, a natur a phroffil ei gorff myfyrwyr, yn dal i fod yn berthnasol i'r adolygiad sy'n canolbwyntio ar sicrhau ansawdd ac sy'n sicrhau canlyniadau positif i'r myfyrwyr.

9 Wrth symleiddio'r adolygiad i ganolbwyntio ar gyfrifoldebau statudol CCAUC, mae QAA wedi ei hymrwymo i leihau'r baich ar ddarparwyr addysg uwch drwy ymateb yn gymesur i'r nod o weithredu'r dull yn effeithlon, yn gost-effeithiol ac yn hyblyg. Mae manylion y newidiadau i'r dull o gynnal yr adolygiad, nid yn unig i gwmpas yr Ymweliad Adolygu, i'w gweld yn yr adrannau a ganlyn.

10 Bydd CCAUC yn parhau i gadw ffocws ar wella ansawdd yn unol â'r Fframwaith Asesu Ansawdd, ac mae eisiau sicrhau bod y ffocws hwn yn parhau i fod yn rhan o drafodaethau rheolaidd rhwng QAA a'r darparwyr. Er y bydd QAA yn parhau i ymgysylltu'n rheolaidd â darparwyr mewn perthynas â gwella ansawdd, ni ddisgwylir i'r gwaith hwn arwain at adroddiadau, canlyniadau neu feirniadaethau a fydd yn cael eu cyhoeddi. Bydd cyfle i ddarparwyr ddangos eu bod yn parhau i gymryd rhan yng ngweithgareddau gwella QAA, sydd wedi eu disgrifio'n fanwl yn Adran 2.

11 Un o elfennau canolog dulliau adolygu QAA yw hunanwerthuso'n feirniadol ar sail tystiolaeth. Mae'n galluogi i'r darparwr ddangos bod ganddo ddiwylliant o fyfyrion ar ansawdd i werthuso ei gryfderau ac adeiladu arnynt, ac i ganfod ac ymdrin â risgiau posibl i ansawdd neu safonau academaidd. Mae'n elfen hanfodol o ran esbonio dull y sefydliad o sicrhau safonau academaidd ac ansawdd y ddarpariaeth, ac o ran esbonio'r ffordd y mae gofynion y Safonau a Chanllawiau ar gyfer Sicrhau Ansawdd yn Ardal Addysg Uwch Ewrop (ESG) a Chod Ansawdd Addysg Uwch y DU (y Cod Ansawdd) yn cael eu bodloni. Mae'r dull diwygiedig hwn yn cynnig cyfle i gyfuno ac integreiddio elfennau o'r sail gwybodaeth ar gyfer yr adolygiad er mwyn lleihau baich y gwaith paratoi ar gyfer yr adolygiad ar y darparwyr, ac yn galluogi iddynt ddangos yn effeithiol i'r tîm adolygu fod y gofynion y mae'r beirniadaethau wedi eu seilio arnynt wedi eu bodloni (gwelwch Adran 3).

## Adran 1: Pwyntiau cyfeirio allanol a chwmpas Adolygiad Gwella Ansawdd

12 Er bod gan ddarparwyr hyblygrwydd wrth bennu'r gyfres lawn o bwyntiau cyfeirio sy'n berthnasol i'w cyd-destun (gwelwch baragraff 21 y Llawlyfr), mae CCAUC yn nodi'r pwyntiau cyfeirio allweddol yr adolygir darparwyr Cymru yn eu herbyn (sef y gofynion sylfaenol perthnasol) yn y ddogfen [Adolygiad Sicrwydd Ansawdd Allanol](#). Mae'r gofynion sylfaenol hyn yn dal i fod yn berthnasol: sef y *Fframwaith ar gyfer Cymwysterau Addysg Uwch yn Lloegr, Cymru a Gogledd Iwerddon* (FHEQ), *Fframwaith Credydau a Chymwysterau Cymru* (FfCChC), a'r Disgwyliadau, yr Arferion Craidd a'r Arferion Cyffredin sydd wedi eu nodi yng Nghod Ansawdd Addysg Uwch y DU, mewn perthynas â darpariaeth y sefydliad drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg fel ei gilydd. Mae'r Arferion Cyffredin yn elfennau tanategol yn y gwaith o sicrhau a gwella ansawdd gan bob darparwr yn y DU, ac maent yn rhan o'r gofynion rheoleiddiol yng Nghymru. Felly, bydd yr Arferion Cyffredin yn dal i fod yn berthnasol at ddibenion y dull adolygu diwygiedig 2021-22 sydd â'i ffocws ar sicrwydd ansawdd.

## Adran 2: Gwelliant fel elfen o Adolygiad Gwella Ansawdd

13 Mae QAA yn parhau i hybu a chefnogi gwelliant mewn ansawdd yng Nghymru drwy ei gwaith gyda'i haelodau a'r sector. Mae gwelliant yn eitem sefydlog yng ngweithgareddau ymgysylltu a thrafod rheolaidd QAA gyda darparwyr sy'n digwydd drwy gynnal cyfarfodydd cyswllt, a thrwy hybu, rhannu ac arddangos arferion da drwy Rwydwaith Ansawdd Cymru a'r fenter prosiectau gwella cydweithredol a gyflwynwyd yn ddiweddar. Bydd QAA yn ailgyfeirio adnoddau o'r elfen 'gwella ansawdd' sy'n rhan o'r Adolygiad GA i'r prosiectau gwella cydweithredol yn 2021-22, gan roi cyfle i ddarparwyr ddangos eu hymgysylltiad â phrosesau gwella ansawdd dros gyfnod eu hadolygiad. Nod y prosiectau hyn yw hybu cydweithrediad a datblygiad yn y sector drwy grwpiau o ddarparwyr sy'n gweithio ynghyd i ymdrin â phwnc penodol sydd â'r potensial i wella arferion yn y sector er budd y myfyrwyr. Mae rhagor o fanylion i'w cael ar [wefan QAA](#). Mae QAA yn annog ac yn hyrwyddo cyfranogaeth myfyrwyr yn y prosiectau hyn.

14 Mae gan ddarparwyr yng Nghymru ffocws cryf ar flaenoriaethau cenedlaethol, megis cenhadaeth gymdeithasol, lles y myfyrwyr a chynaliadwyedd. **Byddai'r mentrau hyn fel arfer yn sail ar gyfer trafod materion gwella ansawdd, ac ni fydd y rhain yn cael eu cynnwys yng nghwmpas yr adolygiadau yn 2021-22, oni bai bod y darparwr wedi dweud ei fod eisiau gwneud hynny.**

15 Mae dulliau effeithiol o ymgysylltu â myfyrwyr yn berthnasol i brosesau sicrhau ansawdd a phrosesau gwella ansawdd fel ei gilydd. Er bod gofyn cael cyfranogaeth a dulliau manylach o ymgysylltu â myfyrwyr ar gyfer gwella ansawdd, os yw'r myfyrwyr yn mynd i gyfrannu at y broses sicrhau ansawdd, mae gofyn o hyd i'r ymgysylltiad â'r myfyrwyr gynnwys amrywiaeth gyfan y boblogaeth myfyrwyr sydd gan y darparwr a chwmpas cyfan ei ddarpariaeth, beth bynnag fo lefel, dull neu leoliad eu hastudiaethau. Mae cyfranogaeth y myfyrwyr yn parhau i fod yn un o brif elfennau'r Adolygiad GA ar gyfer adolygiadau yn 2021-22, o ran y tîm adolygu (bydd pob tîm adolygu'n cynnwys adolygwr sy'n fyfyrwr) ac hefyd rôl myfyrwyr y darparwr (gwelwch Adran 3).

## Adran 3: Y dull Adolygiad Gwella Ansawdd

### Meysydd i ganolbwyntio arnynt

16 Yn y gorffennol, mae Adolygiad GA wedi rhoi'r cyfle i ddarparwyr ganolbwyntio yn eu hadolygiad ar y meysydd sydd o'r pwysigrwydd strategol a'r budd mwyaf iddyn nhw. Nod y meysydd ffocws hyn (a elwir yn feysydd i ganolbwyntio arnynt) yw dangos dull y darparwr o reoli a gwella ei ddarpariaeth mewn meysydd sy'n gysylltiedig â gwella profiad dysgu'r myfyrwyr a chefnogi'r dysgu a'r addysgu. Am fod y rhain fel arfer yn feysydd sy'n cefnogi gwelliant, **ar gyfer**

**Adolygiadau GA a fydd yn digwydd yn 2021-22, ni ofynnir i'r darparwyr nodi a gwerthuso meysydd i ganolbwyntio arnynt yn eu hadolygiad.**

## **Y cyfranogwyr allweddol yn y broses adolygu**

17 Mae rolau'r Swyddog QAA, y myfyrwyr (drwy Brif Gynrychiolydd Myfyrwyr fel arfer) a'r Hwylusydd, sy'n aelod o staff y sefydliad, yn aros yr un fath ar gyfer adolygiadau yn 2021-22. Mae adolygwyr sy'n fyfyrwyr yn parhau i fod yn aelodau llawn a chyfartal o'r timau adolygu. Fel o'r blaen, bydd rôl allweddol gan gorff cynrychiolwyr y myfyrwyr drwy gefnogi'r myfyrwyr i gymryd rhan yn yr adolygiad ac fe'u gwahoddir i enwebu'r Prif Gynrychiolydd Myfyrwyr. Gallai'r myfyrwyr gyfrannu i'r broses mewn nifer o ffyrdd, sy'n aros yr un fath (gwelwch baragraff 59 y Llawlyfr). Mae QAA yn rhoi cyngor a chyfarwyddyd i'r Prif Gynrychiolwyr Myfyrwyr yn ystod y Digwyddiad Briffio i'r Darparwr a'r Cyfarfod Paratoadol cyn yr adolygiad. Mae croeso i gynrychiolwyr y myfyrwyr a/neu'r Prif Gynrychiolydd Myfyrwyr gysylltu â'u Swyddog QAA y tu allan i'r cyfarfodydd hyn i gael cyngor am newidiadau sy'n digwydd i'r dull ar gyfer 2021-22 fel bod ganddynt ddealltwriaeth glir o'r broses.

## **Y sail gwybodaeth ar gyfer yr adolygiad**

18 I gydnabod y llwyth gwaith ychwanegol sylweddol yn sgil y pandemig COVID-19, anogir y darparwyr i ganolbwyntio eu gwaith paratoi paratoi ar gyfer yr adolygiad er mwyn lleihau unrhyw faich gwaith paratoi gormodol. Mae hyn yn cynnwys rhoi ystyriaeth i ffyrdd o ostwng cwmplas dogfennau hunanwerthuso, fel y bo'n briodol, gan sicrhau eu bod yn canolbwyntio ar y gweithrediadau arferol drwy ddarparu sail tystiolaeth o ddogfennau allweddol sy'n cadarnhau mor effeithiol yw dull y darparwr o fodloni'r gofynion rheoleiddiol perthnasol a'r disgwyliadau yn Rhan 1 yr ESG.

19 Lluniwyd y dull Adolygiad GA i gydnabod bod gan ddarparwyr a reoleiddir hanes dangosadwy'n barod (o ddau neu fwy o adolygiadau QAA llwyddiannus) o fodloni gofynion y Cod Ansawdd, sy'n galluogi i ddarparwyr gadarnhau bod eu harferion yn parhau i fod yn gryf. Felly, mae'r dull hwn yn dod â syfiliad a newid sylweddol oddi wrth y dulliau blaenorol am ei fod yn ceisio cadarnhau yn hytrach nag ail brofi gofynion sylfaenol. Bydd yr adolygwyr yn ceisio archwilio ystod ac effeithiolrwydd cyffredinol gwerthusiadau parhaus a rheolaidd y darparwr, lle bynnag y bo modd.

20 Elfen allweddol o'r dull hwn yw'r Adroddiad Newidiadau (neu ddogfen fapio) lle mae'r darparwr yn crynhoi'r hyn sydd wedi newid ers ei adolygiad blaenorol ac yn darparu tystiolaeth o effeithiolrwydd y newidiadau. Mae'r Adroddiad Newidiadau'n rhoi cyfle i'r darparwyr amlinellu unrhyw newidiadau yn y ffordd y maent yn bodloni, neu wedi ymateb i, ofynion rheoleiddiol sylfaenol perthnasol a phwyntiau cyfeirio allanol eraill (yn fwy penodol, yr ESG). Law yn llaw â'r Adroddiad Newidiadau dylid cael tystiolaeth o'r sail resymegol i'r newidiadau a sut mae'r darparwr wedi gwerthuso, neu'n bwriadu gwerthuso, effeithiolrwydd y newidiadau.

21 Mae Adolygiad GA yn canolbwyntio ar asesiad beirniadol y darparwr ei hun o'i gryfderau, risgiau posibl a ganfuwyd i ansawdd a safonau, a meysydd y mae angen mynd i'r afael â nhw a'u datblygu. Felly, mae'r dull yn rhoi pwysigrwydd arbennig i werthuso ar sail tystiolaeth a hunanwerthuso'n feirniadol, ac mae'n caniatáu i'r adolygwyr gadarnhau, yn hytrach nag ail brofi, bod y darparwr yn bodloni'r gofynion a/neu'r safonau yn y meysydd beirniadaeth. **Er bod y dull yn rhoi pwyslais ar hunanwerthuso ac ar adrodd am newidiadau, mae'r ffordd y mae darparwyr yn cyflwyno'r elfennau hyn, er enghraifft, drwy gyfuno'r Adroddiad Newidiadau â'r hunanwerthusiad, yn un peth yr asesir y darparwr arno.** Mae hyn yn cydnabod **nad oes angen i'r Dadansoddiad Hunanwerthuso bellach roi sylw i ddau o benawdau'r Adroddiad Technegol - 'Gwella profiad dysgu'r myfyrwyr' a 'Chefnogi gwelliant mewn dysgu ac addysgu'**. Mae'r Arferion Cyffredin yn y Cod Ansawdd, sy'n ymwneud ag arferion sy'n tanategu datblygiad a gwelliant, yn berthnasol i bennawd 'Prosesau yn ymwneud ag ansawdd a safonau academiaidd' yr Adroddiad

Technegol sy'n rhoi sylwadau am effeithiolrwydd y defnydd a wneir o ddulliau sicrhau ansawdd i wella'r dysgu a'r addysgu.

22 Fel o'r blaen, dylai'r darparwyr fod yn ymwybodol o'r gofyniad i sicrhau bod pob un o'r ddau faes beirniadaeth yn cael digon o sylw yn y dadansoddiad a'r sail tystiolaeth y maent yn eu darparu. Mae Atodiad 6 y Llawlyfr yn rhoi cyngor am gynnwys y Dadansoddiad Hunanwerthuso. Er nad oes angen cynnwys yr elfennau hynny sy'n ymwneud â gwelliant, mae gwybodaeth gyd-destunol a'r defnydd a wneir o ddata i reoli safonau ac ansawdd yr un mor berthnasol i'r broses Adolygiad GA ddiwygiedig ag oedden nhw cynt. Mae croeso i ddarparwyr drafod eu cynlluniau ar gyfer strwythuro eu sail tystiolaeth gyda QAA.

## Cyfraniad y myfyrwyr

23 Mae QAA yn gwbl ymroddedig i annog a galluogi myfyrwyr i ymgysylltu'n weithredol ag Adolygiadau GA a chyfranogi ynddynt. Mae Atodiad 5 y Llawlyfr, 'Ymgysylltiad a chyfranogaeth y myfyrwyr', yn dal i fod yn berthnasol i adolygiadau yn 2021-22. Ystyrir yr wybodaeth a ddarperir gan y myfyrwyr o flaen llaw, drwy gyflwyniad ysgrifenedig y myfyrwyr fel arfer, yn rhan annatod o'r broses am fod eu cyflwyniad yn rhoi cipolwg ar natur profiad y myfyrwyr a pha mor effeithiol yw rheolaeth y darparwr ar ansawdd profiad ei fyfyrwyr. Bydd timau adolygu QAA yn disgwyl cwrdd ag ystod amrywiol o fyfyrwyr, sy'n cynrychioli cyfansoddiad y corff myfyrwyr. Gallai cyfarfodydd gyda chynrychiolwyr y myfyrwyr ddarparu cyfle pwrpasol i glywed sylwadau myfyrwyr amrywiol, gan hefyd ganiatáu i fyfyrwyr wneud defnydd da o'u hamser ar yr un pryd. Fodd bynnag, bydd timau adolygu eisiau clywed hefyd gan fyfyrwyr nad ydynt yn gynrychiolwyr.

24 Ar gyfer adolygiadau yn 2021-22, bydd cyflwyniadau'r myfyrwyr yn parhau i ganolbwyntio ar y profiad o fod yn fyfyrwr yn sefydliad y darparwr sy'n cael ei adolygu, a sut mae'r myfyrwyr yn cael eu cynnwys, yn unigol ac ar y cyd, yn y gwaith o ddatblygu, sicrhau a gwella eu profiad addysgol.

25 **Mae modd gwneud cyflwyniadau'r myfyrwyr mewn ffurfiau amgen, yn ogystal â defnyddio ffurfiau eraill i ategu'r prif gyflwyniad ysgrifenedig.** Mae rhagor o [arweiniad am ffurfiau amgen](#) ar gael. Yn ystod y Digwyddiad Briffio i'r Darparwr a'r Cyfarfod Paratoadol, bydd cyfle i gynrychiolwyr y myfyrwyr ofyn am ragor o gyngor ar unrhyw agwedd o'r broses a'u cyfranogaeth hwythau ynddi. Mae rhagor o arweiniad ysgrifenedig i gynrychiolwyr y myfyrwyr wrthi'n cael ei baratoi a bydd ar gael iddynt ar ôl y Digwyddiad Briffio i'r Darparwr.

## Y broses adolygu

26 Bydd QAA yn cynnal Digwyddiad Briffio i'r Darparwyr i gyd ar-lein. Bydd y sesiwn briffio'n cael ei ddefnyddio i esbonio a thrafod y dull diwygiedig ac i roi cyngor am y broses adolygu. Fel o'r blaen, bydd y Cyfarfod Paratoadol i'r darparwr fel arfer yn digwydd chwe mis cyn yr Ymweliad Adolygu.

27 Ar hyn o bryd, defnyddir yr Ymweliad Cyntaf gan y Tîm yn rhannol i egluro a chadarnhau materion sicrhau ansawdd sydd heb eu datrys er mwyn galluogi iddynt ganolbwyntio fwy ar elfennau'r adolygiad sy'n ymwneud â gwelliant. Yn ogystal, mae'r Ymweliad Adolygu wedi ei strwythuro o amgylch cyfarfodydd gydag aelodau o'r staff a'r myfyrwyr sy'n cael eu cynnal yn rhan o'r prif Ymweliad Adolygu. Felly, **mae QAA wedi penderfynu peidio cynnal Ymweliad Cyntaf gan y Tîm ar gyfer adolygiadau yn 2021-22.** Yn hytrach, bydd timau adolygu'n cynnal cyfarfod cyntaf preifat a fydd yn cael ei ddefnyddio i gytuno ar hyd yr Ymweliad Adolygu, y rhaglen ddrafft ac unrhyw wybodaeth ychwanegol y gofynnir amdani. Bydd y cyfarfod hwn yn digwydd ar yr un pwynt yn y broses adolygu â'r Ymweliad Cyntaf gan y Tîm, a bydd y darparwr yn cael gwybod am ganlyniadau'r cyfarfod yn syth ar ei ôl.

28 Bydd hyd yr Ymweliad Adolygu'n cael ei addasu i roi ystyriaeth i'r gostyngiad yng nghwmpas yr adolygiad. **Ar gyfer darparwyr addysg uwch, bydd yr ymweliad yn para rhwng dau a phedwar diwrnod, yn dibynnu ar faint a chymhlethdod y ddarpariaeth a natur y**

**themâu a nodir gan y tîm. Ar gyfer darparwyr addysg bellach lle mae llai o gyfle i ostwng maint y tîm adolygu (bydd timau adolygu bob amser yn cynnwys adolygwr sy'n fyfyrwr), bydd yr ymweliad yn para am ddau ddiwrnod fel arfer.**

29 Yn ystod yr Ymweliad Adolygu, bydd yr adolygwyr bob amser yn cwrdd ag aelodau undeb y myfyrwyr a'i gynrychiolwyr, a gyda myfyrwyr sy'n cymryd rhan mewn prosesau sicrhau ansawdd. Bydd timau adolygu'n sicrhau eu bod yn rhoi ystyriaeth i'r amrywiaeth ym mhoblogaeth y myfyrwyr drwy gwrdd ag amrywiaeth o fyfyrwyr o bob rhan o'r darparwr, fel y bo'n briodol.

30 **Mae'r cyfarfodydd gyda phennaeth y darparwr, cyflogwyr, llywodraethwyr a chyn-fyfyrwyr yn ddewisol a gall y darparwr ddewis eu galw.**

#### **Adran 4: Beirniadaethau a chanfyddiadau**

31 Ar gyfer adolygiadau a fydd yn digwydd yn 2021-22, nid oes unrhyw newidiadau sy'n ymwneud â beirniadaethau'r adolygiad (gwelwch baragraffau 106 i 110 y Llawlyfr). **Ni fydd y tîm adolygu'n gwneud datganiad am ddulliau'r darparwr o sicrhau gwelliant.** Bydd y mathau eraill o ganfyddiadau'r adolygiad - cadarnhadau, argymhellion a chanmoliaethau - yn dal i fod yn berthnasol i adolygiadau. Bydd y timau adolygu'n parhau i gofnodi nodweddion o arfer da fel canmoliaeth, gan gydnabod yr arferion hynny sy'n gwneud cyfraniadau arbennig o bositif i brofiad dysgu'r myfyrwyr yng nghyd-destun y darparwr.

32 Bydd timau adolygu'n gwneud eu beirniadaethau ar sail y meini prawf sydd wedi eu nodi yn Atodiad 2 y Llawlyfr. Un o'r meini prawf yw effeithiolrwydd dulliau'r darparwr o sicrhau gwelliant. Newidiwyd y maen prawf hwn i roi ystyriaeth i'r Arferion Cyffredin sydd wedi eu nodi yn y Cod Ansawdd ar gyfer safonau ac ansawdd fel ei gilydd, sef effeithiolrwydd arferion y darparwr i ysgogi datblygiad a gwelliant. Mae'r meini prawf beirniadaeth sydd wedi eu diweddarau i'w gweld yn Atodiad B yr adendwm hwn.

#### **Adran 5: Adroddiadau, cynlluniau gweithredu a chamau dilyniant**

33 Mae'r prosesau ar gyfer rhoi adroddiad, cynllunio camau gweithredu a chamau dilyniant yn aros yr un fath. Bydd darparwyr sydd wedi derbyn y feirniadaeth 'yn bodloni'r gofynion' ymhob un o'r ddau faes beirniadaeth yn dal i fod yn gymwys i ddefnyddio Marc Ansawdd QAA.

#### **Adran 6: Y tîm adolygu**

34 Am fod cwmpas yr adolygiad wedi ei ostwng i ganolbwyntio ar sicrhau ansawdd, **bydd timau adolygu'n cynnwys tri adolygwr.** Bydd adolygwr ar y tîm bob amser sy'n fyfyrwr cyfredol neu ddiweddar. Bydd aelodau'r tîm adolygu'n cynnwys aelod o staff sydd â gwybodaeth a phrofiad o'r sector addysg uwch yng Nghymru ac aelod o staff academaidd mewn darparwr arall yn y DU.

35 Bydd yr adolygwyr yn derbyn hyfforddiant diweddarau i sicrhau eu bod yn deall yr addasiadau a wnaed i'r dull adolygu ar gyfer 2021-22.

## Atodiad A: Cynnwys yr Adroddiad Technegol

Bydd Adroddiadau Technegol ar gyfer adolygiadau a fydd yn digwydd yn 2021-22 yn cael eu strwythuro o amgylch y penawdau a ganlyn:

### Gwybodaeth gyd-destunol am y darparwr, poblogaeth y myfyrwyr a'r adolygiad

- Gwybodaeth gryno am y darparwr, sy'n cynnwys fframwaith strategol, strwythur cyfundrefnol.
- Cyfansoddiad poblogaeth y myfyrwyr, a thueddiadau allweddol a newidiadau a ddisgwylir o fewn y boblogaeth honno, gan gynnwys gwybodaeth am gadwraeth, cynnydd a chanlyniadau.
- Sylwadau ar y gwaith paratoi ar gyfer yr adolygiad, yn cynnwys y ffordd y mae'r darparwr a'i fyfyrwyr wedi cydweithio mewn partneriaeth i baratoi ar gyfer yr adolygiad.
- Crynodeb o'r camau dilyniant a gymerwyd gan y darparwr yn dilyn yr adolygiad blaenorol.
- Lle bo'n berthnasol, manylion cyfrifoldebau'r darparwr am y ddarpariaeth addysg uwch y mae'n ei darparu ar ran y corff/cyrff dyfarnu graddau y mae'n gweithio mewn partneriaeth ag o/ â nhw.

### Prosesau yn ymwneud ag ansawdd a safonau academaidd

- Nodweddion allweddol dulliau'r darparwr o reoli ansawdd a'r ffordd y mae'r myfyrwyr yn cyfranogi yn y gwaith o reoli ansawdd y cyfleoedd dysgu.
- Nodweddion allweddol y dulliau o osod, cynnal, adolygu ac asesu safonau academaidd.
- Y defnydd a wneir o bwyntiau cyfeirio allanol mewn prosesau ansawdd.
- Sylwadau ar y camau a gymerwyd ers yr adolygiad blaenorol a phennu materion sy'n codi o'r Adroddiad Newidiadau a'r Pecyn Gwybodaeth Ymlaen Llaw nad ydynt yn cael eu harchwilio fel arall.
- Y dull o ddefnyddio data i hysbysu prosesau gwneud penderfyniadau a gwerthuso.
- **Effeithiolrwydd y defnydd a wneir o ddulliau sicrhau ansawdd i wella a chyfoethogi'r dysgu a'r addysgu.**
- Effeithiolrwydd y trefniadau ar gyfer sicrhau safonau academaidd.
- Effeithiolrwydd dull y darparwr o'i werthuso ei hun, sy'n cynnwys defnyddio data'n effeithiol i hysbysu'r prosesau gwneud penderfyniadau.

### Darpariaeth gydweithredol (os yw hyn yn berthnasol)

- Nodweddion allweddol dull strategol y darparwr (yn cynnwys gweithgareddau cydweithredol, dysgu ar-lein a dysgu o bell a ddarperir gydag eraill, a dysgu seiliedig ar waith).
- Gwybodaeth am faint a natur y ddarpariaeth gydweithredol ac unrhyw gynlluniau i'w newid.
- **Effeithiolrwydd y dull o reoli'r ddarpariaeth gydweithredol gan gynnwys y trefniadau ar gyfer sicrhau safonau academaidd a gwella a chyfoethogi profiad academaidd y myfyrwyr.**



## Atodiad B: Y beirniadaethau

### Meini prawf beirniadaeth

Mae'r meini prawf y mae'r timau adolygu'n eu defnyddio i wneud eu beirniadaethau i'w gweld isod.

...yn bodloni'r gofynion	...yn bodloni'r gofynion gydag amodau	...ddim yn bodloni'r gofynion
<p>Maent yn bodloni pob un o'r gofynion perthnasol a/neu'r safonau perthnasol, neu bob un bron iawn.</p>	<p>Mae'r mwyafrif o'r gofynion perthnasol a/neu'r safonau perthnasol wedi eu bodloni.</p>	<p>Mae wedi methu â bodloni nifer o'r gofynion perthnasol a/neu'r safonau perthnasol, neu mae bylchau mawr mewn un neu fwy o'r disgwyliadau perthnasol.</p>
<p>Nid yw'r gofynion a/neu'r safonau sydd heb eu bodloni, yn unigol neu ar y cyd, yn cyflwyno unrhyw risgiau difrifol i'r rheolaeth ar safonau neu ansawdd.</p> <p>Gallai'r argymhellion fod yn gysylltiedig, er enghraifft, â:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• hepgoriad neu amryfusedd bychan</li> <li>• yr angen i addasu neu ddiweddarau dulliau, lle na fydd yr addasiad yn creu newid strwythurol, gweithredol neu drefniadol mawr</li> <li>• chyflawni gweithgaredd sydd ar waith yn barod mewn nifer fechan o feysydd a fydd yn caniatáu i'r darparwr fodloni'r gofynion yn llawnach</li> <li>• <b>arferion y darparwr i ysgogi datblygiad a gwelliant.</b></li> </ul> <p>Mewn achosion eithriadol, mae'n bosibl cael beirniadaeth wahaniaethol sy'n enwi un maes penodol a allai achosi pryder sylweddol sy'n galw am gamau gweithredu cyflym o fewn amseriad penodol.</p>	<p>Nid yw'r gofynion a/neu'r safonau sydd heb eu bodloni'n cyflwyno unrhyw risgiau difrifol i safonau neu ansawdd.</p> <p>Efallai bod rhai risgiau canolig a allai arwain, os na chânt sylw, at broblemau difrifol dros amser gyda rheoli safonau neu ansawdd.</p> <p>Gallai'r argymhellion fod yn gysylltiedig â:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• gwendidau yn nulliau'r darparwr o gyflawni'r gofynion a/neu'r safonau</li> <li>• phwyslais neu flaenoriaeth annigonol ar sicrhau safonau neu ansawdd</li> <li>• threfnau sicrhau ansawdd sydd â rhai gwendidau, er eu bod yn ddigonol i raddau, yn nhermau pa mor fanwl gywir y cânt eu gweithredu</li> <li>• <b>arferion y darparwr i ysgogi datblygiad a gwelliant sydd heb eu datblygu'n ddigonol</b></li> <li>• phroblemau sydd wedi eu cyfyngu i ran fechan o'r ddarpariaeth.</li> </ul>	<p>Mae'r gofynion a/neu'r safonau sydd heb eu bodloni'n cyflwyno risg(iau) difrifol, yn unigol neu ar y cyd, i'r rheolaeth ar safonau neu ansawdd. Mae'r rheoliadau sydd ar waith i leihau'r risg yn annigonol. Gallai peidio â gweithredu, neu beidio gweithredu mewn da bryd, mewn rhai meysydd arwain at ganlyniadau difrifol.</p> <p>Gallai'r argymhellion fod yn gysylltiedig â:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• dulliau aneffeithiol o gyflawni'r gofynion a/neu'r safonau</li> <li>• bylchau sylweddol mewn polisi, strwythurau neu weithdrefnau sy'n ymwneud â'r ffordd y mae'r darparwr yn sicrhau ansawdd a safonau</li> <li>• <b>arferion i ysgogi datblygiad a gwelliant sy'n aneffeithiol</b></li> <li>• y darparwr yn torri ei drefnau sicrhau ansawdd ei hun.</li> </ul>

...yn bodloni'r gofynion	...yn bodloni'r gofynion gydag amodau	...ddim yn bodloni'r gofynion
<p>Mae esiamplau o arfer da yn y maes hwn, y mae'n debyg y bydd rhai ohonynt yn cael eu nodi fel canmoliaethau.</p> <p>Mae ymgysylltiad y myfyrwyr wedi ei gefnogi.</p> <p>Mae ffocws clir yn strategaethau a pholisïau'r darparwr ar ymdrin ag anghenion ei fyfyrwyr.</p> <p>Mae prosesau ar waith sy'n helpu i bennu'r meysydd sydd angen eu datblygu, ac mae'r darparwr wedi cydnabod yr angen am weithredu yn ei ddogfennaeth adolygu neu yn ystod yr adolygiad.</p> <p>Mae tystiolaeth o'r camau gweithredu priodol y mae'n eu cymryd o fewn amser rhesymol fel arfer, gan gynnwys mewn ymateb i adolygiadau blaenorol.</p> <p>Mae tystiolaeth i ddangos bod y darparwr yn hollol ymwybodol o'i gyfrifoldebau ynglŷn â sicrhau ansawdd a safonau, a'i fod yn effro i ddangosyddion a allai arwyddo bod problemau wrthi'n datblygu.</p>	<p>Efallai nad yw'r cynlluniau y mae'r darparwr yn eu cyflwyno ar gyfer ymdrin â phroblemau a ganfuwyd cyn neu yn ystod yr adolygiad, wedi eu datblygu'n ddigonol neu eu cynnwys yn gyflawn yng ngwaith y darparwr.</p> <p>Efallai nad yw'r camau gweithredu wedi eu blaenoriaethu'n briodol, gyda'r risg bod problemau'n dod yn fwy difrifol neu sylweddol.</p> <p>Mae camau gweithredu diweddar a blaenoriaethau'r darparwr yn awgrymu nad yw darparwr yn gwbl ymwybodol efallai o arwyddocâd materion penodol.</p>	<p>Nid yw'r cynlluniau ar gyfer ymdrin â phroblemau a ganfuwyd y gall y darparwr eu cyflwyno cyn neu yn ystod yr adolygiad, yn ddigonol i gywiro'r problemau, neu ychydig iawn o dystiolaeth sydd o gynnydd effeithiol, neu does dim tystiolaeth ohono o gwbl.</p> <p>Efallai nad yw'r darparwr wedi cydnabod bod ganddo broblemau mawr, neu nid yw wedi cynllunio camau gweithredu priodol i ymdrin â phroblemau y mae wedi eu canfod.</p> <p>Mae dealltwriaeth y darparwr o'r cyfrifoldebau sy'n gysylltiedig ag un neu fwy o feysydd allweddol y gofynion a/neu'r safonau'n gyfyngedig, neu efallai nad yw'n llawn reoli pob rhan o'r sefydliad.</p> <p>Efallai bod y darparwr wedi methu â gweithredu'n briodol dro ar ôl tro, neu'n barhaus, mewn ymateb i weithgareddau adolygu allanol.</p>

## Atodiad C: Crynodeb o'r addasiadau i'r Adolygiad Gwella Ansawdd ar gyfer adolygiadau a fydd yn digwydd yn 2021-22

Y pwnc	Yr addasiad
Yr Adroddiad Technegol	Mae penawdau diwygiedig yr adroddiad wedi eu nodi yn Atodiad A. Pan fydd yr is-benawdau wedi eu diwygio, mae'r rhain wedi eu hamlygu mewn print trwm.
Blaenoriaethau cenedlaethol	Nid yw'r adolygiadau'n cynnwys blaenoriaethau cenedlaethol (paragraff 14).
Y cwmpas	Ni fydd timau adolygu'n rhoi adroddiad sy'n dilyn penawdau'r Adroddiad Technegol mewn perthynas â gwelliant: 'Gwella profiad dysgu'r myfyrwyr' a 'Chefnogi gwelliant mewn dysgu ac addysgu' (paragraff 21 ac Atodiad A).
Cyflwyniad y myfyrwyr	Dylai ffocws y cyflwyniad mewn perthynas â gwella ansawdd ymwneud yn benodol â'r Arferion Cyffredin sydd wedi eu nodi yn y Cod Ansawdd a'r defnydd a wneir o brosesau ymgysylltu â myfyrwyr yn unigol ac ar y cyd i ysgogi datblygiad a gwelliant (paragraff 24).  Mae modd gwneud cyflwyniadau'r myfyrwyr mewn ffurfiau amgen yn lle cyflwyniad ysgrifenedig (paragraff 25).
Meini prawf beirniadaeth a chanlyniadau	Adolygwyd y meini prawf i roi ystyriaeth fwy penodol i'r Arferion Cyffredin hynny sy'n ymwneud ag arferion i ysgogi datblygiad a gwelliant. Mae'r canllaw hwn yn cynnwys tabl diwygiedig lle amlygir y newidiadau mewn print trwm (paragraff 32 ac Atodiad B).  Ni fydd y tîm adolygu'n gwneud datganiad am ddulliau'r darparwr o sicrhau gwelliant (paragraff 31).
Meysydd i ganolbwyntio arnynt	Nid oes gofyniad i bennu meysydd o'r fath (paragraff 16).
Sail gwybodaeth y darparwr	Mae tair elfen y sail gwybodaeth (y Ddogfen Hunanwerthusiad, yr Adroddiad Newidiadau a'r Pecyn Gwybodaeth Ymlaen Llaw) yn dal i fod yn berthnasol, ond mae modd i ddarparwyr addasu'r ffordd y maent yn cyflwyno'r elfennau hyn er mwyn ateb eu hanghenion orau, ac er mwyn lleihau baich y gwaith paratoi ar gyfer yr adolygiad (paragraff 21).
Y tîm adolygu	Am fod cwmpas yr adolygiad wedi ei ostwng i ganolbwyntio ar sicrhau ansawdd, bydd timau adolygu'n cynnwys tri adolygwr, a bydd un o'r rhain yn fyfyrwr (paragraff 34).
Yr Ymweliad Adolygu	Mae'r cyfarfodydd gyda phennaeth y darparwr, cyflogwyr, llywodraethwyr a chyn-fyfyrwyr yn ddewisol a gall y darparwr ddewis eu galw (paragraff 30).  Bydd hyd yr Ymweliad Adolygu'n cael ei addasu i roi ystyriaeth i'r gostyngiad yng nghwmpas yr adolygiad. Ar gyfer darparwyr addysg bellach, bydd yr ymweliad yn para am ddau ddiwrnod fel arfer (paragraff 28).
Yr Ymweliad Cyntaf gan y Tîm	Ni fydd Ymweliad Cyntaf gan y Tîm. Yn hytrach, bydd timau adolygu'n cynnal cyfarfod cyntaf preifat i benderfynu hyd yr adolygiad, i lunio'r rhaglen adolygu ac i benderfynu unrhyw geisiadau am wybodaeth ychwanegol (paragraff 27).

QAA2539a - Ebrill 2021

© Asiantaeth Sicrhau Ansawdd Addysg Uwch 2021  
Adeilad Cambrian, Sgwâr Mount Stuart, Caerdydd, CF10 5FL  
Rhifau elusen gofrestrdig 1062746 ac SC037786

Ffôn: 01452 557000  
Gwefan: [www.qaa.ac.uk](http://www.qaa.ac.uk)